



Hysbysiad Statudol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Rhondda Cynon Taf, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig rhoi'r gorau i gynnal darpariaeth AAA yn Ysgol Gynradd Caradog, Clifton Street, Aberdâr, CF44 7PB, fel na fydd Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion mae gyda nhw anawsterau dysgu cymhleth yn yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn cael ei chynnal gan Gyngor Rhondda Cynon Taf.

Cynhaliodd Rhondda Cynon Taf gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig yma. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar

www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/SchoolConsultations/Schoolconsultations.aspx

Y bwriad ydy gweithredu'r cynigion yma ar 31 Awst 2019.

Mae 193 o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd ac mae 194 o leoedd yn yr ysgol. 194 fydd nifer y lleoedd o weithredu'r cynlluniau.

Os bydd plant lleol angen mynychu Dosbarth Anawsterau Dysgu Cymhleth, bydd y ddarpariaeth agosaf yn Ysgol Gynradd Cwm-bach. Fel arall, byddai modd ystyried lleoliad prif ffrwd â chymorth pe bai hynny'n addas ar gyfer anghenion y plentyn a phe bai'r rhieni yn dymuno hynny.

Bydd y disgyblion yn cael eu cludo yn unol â Pholisi Cludo Disgyblion y Cyngor.

Caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion yma, hynny yw erbyn 15 Mawrth 2019.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ.

Bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (sydd heb gael eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau arnyn nhw, cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Llofnod

Gwynor Davies

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Rhondda Cynon Taf

Dyddiad – 13 Chwefror 2019

Nodyn Esboniadol

1. Mae gwella ansawdd addysg a chodi safonau yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor. Rydyn ni'n ystyried bod gwella safonau a deilliannau addysgol ar gyfer rhai o'n disgyblion mwyaf agored i niwed yn gwella eu cyfleoedd mewn bywyd, eu mynediad i fyd gwaith a llwybrau addysg eraill. Mae sicrhau bod ein Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn addas ar gyfer anghenion disgyblion yn bwysig o ran y cynnydd maen nhw'n ei wneud.
2. Er bod safon y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf yn dda, mae angen i ni foderneiddio a datblygu'r math yma o ddosbarth er mwyn cynyddu cyfleoedd ar gyfer cynnwys y disgyblion yma yn y brif ffrwd a gwella canlyniadau ar gyfer disgyblion agored i niwed.
3. Ar hyn o bryd, mae gan Ysgol Gynradd Caradog ddau Ddosbarth Cynnal Dysgu sydd â'r nod o gefnogi rhwng 8 a 10 o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a 10 o ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth.
4. Bydd Ysgol Gynradd Cwm-bach yn cynnig darpariaeth ar draws y dosbarthiadau ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth.
5. Caiff trefniadau addas eu rhoi ar waith drwy ymgynghori â phawb sy'n rhan o'r broses er mwyn sicrhau bod darpariaeth addas ar gyfer unrhyw ddisgyblion a gaiff eu heffeithio gan y newidiadau.